# Disgrifiad o Drywydd y Llwybr Arfordirol
## RHAN 10: ABERFFRAW – PONTRHYDYBONT (‘*4-MILE BRIDGE*’)

Ewch dros yr hen bont yn **Aberffraw**, trowch i’r chwith ar hyd lôn sy’n gyfochrog â’r aber. Ewch heibio bythynnod **Glan y Môr,** a lle mae’r lôn ag wyneb arni yn gorffen, ewch i’r dde i fyny llwybr caeedig. Ar ôl cyrraedd lôn at dŷ, trowch i’r chwith i lawr llwybr caeedig arall (o flaen Y Cei) ac fe ymunwch â llwybr ar hyd top arglawdd (‘*embankment*’) sy’n gyfochrog â’r afon.

Fe ddaw wal i’r golwg ar y chwith i chi, ac fe fyddwch yn mynd i lawr ychydig o risiau i fynd ar y blaendraeth (‘*foreshore*’). Pasiwch o flaen y t gwyn ar ymyl y traeth, croeswch drac mynediad, ac fel y mae’r aber yn dechrau agor allan, fe welwch giât mochyn o’ch blaen. Ewch drwyddi ac i fyny ar benrhyn **Trwyn Du**. Ar ôl cyrraedd fforch yn y llwybr, ewch i’r chwith, ac yna i’r dde tuag at yr adeilad fferm. Gan ddilyn y morlin tua’r gorllewin, ymunwch â llwybr caeedig, ewch drwy giât ac yna i lawr i’r lan ym **Mhorth Lleidiog**. Croeswch y traeth, a chymrwch y llwybr ar yr ochr arall (anwybyddwch y llwybr y tu cefn i’r traeth) ar hyd y llwybr ar ymyl y clogwyn.

Ewch drwy giât i mewn i gae, a dilynwch ymyl y cae. Ewch i’r dde heibio cloddiad (‘*cutting*’) i lawr i gildraeth (‘*cove*’) caregog, a dilynwch yr arfordir rownd drwy giât mochyn. Dilynwch lwybr caeedig i ddod allan ar benrhyn agored. Ewch i’r dde, a thrwy sawl giât arall, heibio **Trwyn yr Wylan** a rownd tuag at **Borth Cwyfan**. Dilynwch y llethr bridd ar y dde i chi, ac ar ôl dwy giât arall, ewch i lawr i’r traeth. Cerddwch rownd cefn y traeth, heibio’r lôn i Aberffraw, a’r sarn (‘*causeway*’) drosodd i **Langwyfan**, gan anelu tuag at y tŷ gwyn. Ymunwch â thrac sy’n croesi nant, ac anelwch i fyny’r allt heibio’r tai, **Ty’n Twll** a **Llangwyfan Isaf**. Ar ben y trac, trowch i’r dde, heibio’r fynedfa i’r Trac Rasio, ar hyd lôn. Yn fuan wedyn, ewch i’r chwith dros gamfa i mewn i gae. Cerddwch tuag at derfyn y cae o’ch blaen, ac yna ewch i’r chwith i lawr y cae i’r môr. Ewch drwy’r giât mochyn, ac yna i’r dde i lawr heibio’r cyfeirbost, a dilynwch y morlin (‘*coastline*’) heibio creigiau’r **Ynysoedd Duon.** Croeswch ddwy bont sliperi (‘*sleeper bridges*’), a dilynwch yr arfordir drwy giât mochyn i ymuno â llwybr caeedig o gwmpas penrhyn a heibio hen adeilad brics. Ewch ar hyd llwybr cul wedi’i ffensio ar hyd ymyl cae, drwy ddwy giât mochyn, i ddod allan yn y maes parcio ym **Mhorth Trecastell**.

Croeswch y maes parcio ac ewch i’r chwith ar lwybr i fynd ar y penrhyn nesaf. Dilynwch y llwybr treuliedig rownd ymyl y penrhyn, heibio’r fynedfa i **Farclodiad Y Gawres**, croeswch bont sliperi fechan, ac fe ymunwch â llwybr caeedig ar hyd ymyl y morlin. Ar ôl cyrraedd **Porth Nobla**, ewch i’r dde oddi wrth y traeth i ddod i gyffordd. Trowch i’r chwith a heibio’r bwthyn gwyn, **Ty’n Towyn**, ar yr ochr dde i chi. Ar ôl cyrraedd trac, trowch i’r chwith, ac yna ewch i’r dde i fynd ar lwybr sy’n mynd o flaen y t gwyn mawr ym **Mhorth y Cwch**. Ewch i’r chwith lle mae’r llwybrau’n rhannu, ewch i’r dde ar ôl croesi un arall, ac fe ddowch allan i faes parcio. Ewch drwy’r maes

parcio, a dilynwch y llwybr allan i'r ochr arall. Ewch yn eich blaen drwy'r twyni. Mae llwybr yn ymuno â'r prif lwybr, a chan fynd yn syth ymlaen, fe fyddwch wedyn yn croesi trac. Pasiwch y pwll ar y chwith i chi a chroeswch ffos. Fe ddowch i borth wrth gamfa y tu ôl i nifer o adeiladau gwyn mawr y tu cefn i **Cerrig y Defaid**. Ewch drwy'r giât, croeswch y trac, ac ewch yn syth ymlaen. O dan ychydig o beilonau y tu ôl i'r adeiladau mawr, ewch i'r dde i fynd ymlaen ar hyd rhan y twyni o'r llwybr, neu trowch i'r chwith i fynd i lawr i'r traeth.

RHAN TRAETH LLYDAN (yn amodol ar y llanw)
Ar ôl cyrraedd y traeth, trowch i'r dde a cherddwch ar hyd y traeth, gan groesi nant, ac wedyn i fyny i ymuno â **Lôn Traeth Llydan**.

I fynd ymlaen ar hyd rhan y twyni: ar ôl cyrraedd llecyn glaswelltog gwastad, ewch yn syth yn eich blaen gan ddilyn y polion telegraff. Fe fyddwch yn pasio o flaen **Bwyty'r Oystercatcher**, gan ddilyn y gwifrau telegraff at gyffordd yn y llwybrau wrth goeden fach. Ewch yn syth yn eich blaen, a thros bont dros afon. Ar ôl cyrraedd trac, ewch i'r chwith i ddilyn llwybr cul dros dwyni i ddod allan ar **Traeth Llydan.** Trowch i'r dde, i fyny'r llithrfa i'r lôn.

Ewch yn eich blaen ar hyd **Lôn Traeth Llydan**, a dilynwch y lôn rownd i'r dde, gan ymuno â'r Stryd Fawr. Wrth gloc y dref, ewch yn syth ymlaen ar hyd y ffordd fawr, ac yn union gyferbyn ag eglwys, trowch i'r chwith i lawr lôn gyda'r arwydd '*Warren Road*" sy'n arwain i Ffordd Crigyll 1-6. Ewch i'r dde i lawr y lôn a chanddi arwydd '*no through road*", wrth y t o'r enw Gwynedd, ac yna ewch yn syth yn eich blaen gan fynd ar lwybr drwy set o byst. Ymunwch ag ymyl **Afon Crigyll**, ewch dros y bont fawr ac i gyfeiriad glanfa ('*runway*') Llu Awyr Brenhinol y Fali. Dilynwch y ffens derfyn heibio'r giât wen, ac ar ôl mynd i fyny rhiw ar ôl troad i'r dde, ewch i'r chwith oddi wrth y ffens ac yn eich blaen i'r twyni tuag at set o adeiladau ar y gorwel. Dilynwch y cyfeirbyst, ac ewch i lawr set o risiau i'r lan wrth **Ynys Feirig**. Trowch i'r dde, a dilynwch draeth anferth **Traeth Cymyran** tuag at dŷ gwyn **Plas Cymyran** yn y pellter.

Wrth ddynesu at y tŷ gwyn, ewch i'r dde i fyny trac mynediad i ddod allan i lecyn mawr agored. Ewch drwyddo ac yn eich blaen i fyny'r trac, heibio'r adeiladau mawr ar y dde i chi. Fe ddowch allan mewn maes parcio bach anffurfiol. Trowch i'r chwith ar hyd y ffordd. Yn union cyn **Trewyn** a **Carnau** trowch i'r chwith dros gamfa, cerddwch yn gyfochrog â goleuadau glanfa'r maes awyr yn y cae, a cherddwch rownd ymyl y cae wrth y lan. Ewch drwy giât, ac yna trowch i'r dde, oddi wrth y lan, i fyny'r cae gan groesi set arall o oleuadau glanfa'r maes awyr. Ewch drwy borth a dilynwch glawdd ar y dde i chi, a lle mae'n gorffen, dilynwch y gwrych ar yr ochr chwith i chi i fyny at giât o'ch blaen. Ewch drwy'r giât i ymuno â lôn. Anwybyddwch y lôn ar y chwith i chi, ac yna'n fuan wedyn trowch i'r chwith drwy giât arall yn ôl i mewn i gae. Cerddwch yn syth i lawr y cae yn ôl tuag at Y Lasinwen, ac ar ôl ei gyrraedd, ewch i'r dde a dilynwch derfyn y cae ar y chwith i chi. Fe fyddwch yn pasio bwthyn y **Felin Wen** ar y dde i chi.

Pasiwch drwy'r bwlch yn y wal o'ch blaen ac ewch yn syth ymlaen, gan ddilyn terfyn y cae rownd i'r dde o amgylch perimedr y gilfach ('*inlet*'). Ewch drwy'r giât yng nghornel chwith y cae, i ddod allan ar lôn. Trowch i'r chwith, pasiwch lôn ar y dde i chi, ynghyd â llecyn o frwyn, ac yna trowch i'r chwith ar drac garw rownd cefn y gilfach. Wrth yr arwyddbost, ewch i fyny ar yr arglawdd ac, am ran fer, ewch i fyny ychydig o risiau ac ar hyd gwaelod y cae wrth ffens pyst a rheiliau. Gan fynd yn ôl i lawr ar yr arglawdd, croeswch bont sliperi, ac yna dowch allan ar draethell ('*mudbank*'). Ewch drwy'r giât bren o ben y lôn, a dilynwch y llwybr sydd wedi'i ffensio gan ddilyn y gilfach yn ôl tuag at Y Lasinwen. Ar ôl cyrraedd cyffordd yn y llwybrau, ewch i'r dde.

Dilynwch ymyl y cae heibio **Penrhyn Hwlad**, ac edrychwch am y gamfa ar y chwith i chi. Gan groesi i mewn i'r cae nesaf, dilynwch ymyl y cae rownd, ac ar ôl cyrraedd gwrych o'ch blaen, trowch i'r chwith dros gamfa i fynd i lawr i'r lan. Anwybyddwch drac sy'n mynd i'r dde a llwybr sy'n arwain drwy barc carafannau, a dilynwch y llwybr rownd cefn y gilfach, i ddod i drac i fyny at **Glan Rhyd Isaf**. Trowch i'r dde i fyny'r lôn at y giât ar y dde i chi, gyferbyn â'r tŷ.

Ewch drwy'r giât, ac yn syth yn eich blaen drwy'r cae. Ewch dros gamfa arall, gan ddilyn y polion telegraff, ac yna dros gamfa arall eto. Gan groesi'r cae, ewch dros gamfa arall, ewch i'r chwith, ac fe ddowch allan ar lôn. Ar ben y lôn, fe ddowch i lôn fechan, trowch i'r chwith, ac yn fuan wedyn trowch i'r dde i mewn i gae.

Dilynwch derfyn y cae ar y dde i chi, ac ymunwch â llwybr sliperi dros lecyn o gors. Ewch dros y gamfa gerrig, trowch i'r chwith, a dilynwch ymyl ochr chwith y cae. Ewch dros y bont a'r gamfa yng nghornel y cae, ac ewch yn syth ymlaen at y giât. Croeswch y cob yn **Tyddyn Cob**, ewch drwy giât i fynd ar drac, gan fynd i'r chwith ar eich union a thrwy giât arall. Ewch i fyny'r grisiau ac ar draws y cae nesaf. Ewch drwy'r giât, drwy lecyn o eithin, croeswch drac, ac i giât arall. Croeswch yr arglawdd drwy giât, ewch yn syth yn eich blaen, a thrwy 2 giât arall. Croeswch nant. Wrth ddynesu at fferm, cadwch o fewn y cae heibio'r cytiau fferm, ac yng nghornel dde'r cae, ewch drwy giât mochyn. Trowch i'r chwith i fyny'r lôn at fferm **Graig-Lwyd-Ganol**, ac ar ôl cyrraedd y ffordd, trowch i'r chwith. Dilynwch y ffordd dros y bont ('*4-mile bridge*', sy'n ddim ond tua 170 medr!), i ddod i bentref **Pontrhydybont**.